Cwestiynau Cyffredin am y gwasanaeth bysus am ddim

## Beth yw'r cynnig?

1. Y cynnig yw teithio am ddim ar wasanaethau bysus lleol ar bob penwythnos (dydd Gwener, dydd Sadwrn, dydd Sul a dydd Llun) o 30 Gorffennaf 2021 i 30 Awst 2021 (yn gynhwysol).
2. Mae ar gyfer teithiau sy'n dechrau ac yn gorffen yn ardal Cyngor Abertawe. Dyma'r ardal yn cael ei ffinio gan Gasllwchwr (Ship & Castle), Pontarddulais (yr Orsaf Drenau), Garnswllt, Clydach (Mynwent Coed Gwilym), Lon-lâs (Bowen Arms) a Phort Tennant (Bevans Row) felly mae'n cynnwys lleoedd fel Gorseinon, Pontarddulais, Gŵyr a Threforys.
3. Rhaid i bob taith ddechrau cyn 11am

## Pwy sy'n gallu ei ddefnyddio?

Gallwn ni i gyd ei ddefnyddio. Os ydych yn teithio i weithio yn Abertawe neu i fwynhau diwrnod mas yng nghanol y ddinas ar un o'n traethau bendigedig, mae'r gwasanaeth am ddim. Does dim angen i chi ddangos prawf eich bod yn byw yn Abertawe i deithio am ddim.

## Pa wasanaethau bysus sydd wedi'u cynnwys yn y cynnig?

Mae gwasanaethau bysus sy'n cael eu gweithredu gan First Cymru, Adventure Travel, South Wales Transport, DANSA, Briggs a Stagecoach wedi'u cynnwys. Yr unig wasanaethau sydd heb eu cynnwys yw:

- X10 First Cymru rhwng Abertawe a Chaerdydd,
- gwasanaethau coetsis pellter hir a weithredir gan National Express, Megabus a Flixbus,
- Gwasanaethau 9A a 34 First Cymru yn ôl ac ymlaen i feysydd parcio a theithio.

## Beth os wyf am ddefnyddio gwasanaeth sy'n dechrau yn Abertawe ond sy'n gorffen y tu allan i Abertawe?

Yn anffodus, ni fydd ar gael i chi os ydych yn mynd i Gastell-nedd, Caerfyrddin neu fannau eraill y tu allan i ardal Abertawe.

## Beth os wyf yn dechrau y tu allan i Abertawe ac mae'r gwasanaeth yn dod i Abertawe?

Mae'r gwasanaeth am ddim yn berthnasol i deithiau yn Abertawe'n unig. Felly, yn anffodus, ni fydd ar gael i chi os ydych yn dod i Abertawe o'r tu allan i'r ardal.

## Ydy hyn yn berthnasol i Barcio a Theithio?

Yn anffodus nac ydy, ond mae cynigion eraill ar gael os ydych am ddefnyddio'r gwasanaeth parcio a theithio.

**Oes unrhyw un o'r gwasanaeth bysus yn newid?**

Nac oes Mae'r holl wasanaethau arferol yn gweithredu ar eu hamserau arferol. Yr unig wahaniaeth yw y gallwch deithio am ddim.

**Pwy sy'n talu am y gwasanaeth am ddim?**

Y cyngor sy'n talu am ein bod am annog pobl i ddefnyddio'n gwasanaethau bysus lleol gan fod cyfyngiadau'r pandemig bellach yn cael eu llacio. Bydd angen i chi wisgo mwgwd ar y bws o hyd, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, i'ch cadw chi, y gyrrwr a chyd-deithwyr yn ddiogel.

**Beth os oes gennyf docyn tymor?**

Ni fydd angen i chi ei ddangos tra bydd y cynnig ar gael. Ond ni chaiff eich tocyn tymor ei estyn ac ni chewch ad-daliad ar ei gyfer.

**Mae gen i gerdyn bws consesiynol am ddim - sut mae hyn yn effeithio arnaf?**

Gall pobl a chanddynt Gardiau Teithio Rhatach Cymru barhau i deithio am ddim a dylid dangos cardiau fel arfer i'r gyrrwr wrth fynd ar y bws.